

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**  
**7:30YH 27<sup>AIN</sup> GORFFENNAF 2022**  
**YM MHANDY TUDUR**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

**1.1** Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Ann Vaughan (AV), R. Emlyn Williams (REW), Mark Davies (MD), Jên Roberts (JR), Myrddin Davies (MGD) & Diane Roberts (DR) & Einir Williams (EW)

**1.3** Ymddiheuriadau: Austin Roberts (AR)

**1.4** Absennol: Gwydion Jones (GJ)

3 aelod o'r cyhoedd yn bresennol. Non Davies wedi gofyn i gael siarad.

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

Dim datganiad.

**3 COFNODION I'W GWIRO 29<sup>AIN</sup> MEHEFIN 2022**

Cynnigwyd yn gywir gan EW ac eilwyd gan REW.

**4 MATERION YN CODI**

Adroddodd CR fod y tap dŵr ym mynwent Llangernyw bellach yn gweithio. Dŵr Cymru wedi bod yno yn datrys y broblem yn y fynwent heddiw.

DR wedi cysylltu efo Dŵr Cymru i ddilyn y mater yma fyny ac wedi cal gwybod heddiw nad oedd anfonebau wedi eu talu ac taw dyna pam oedd y dŵr wedi ei droi i ffwrdd. Roedd wedi cael gwybod ei bod yn debyg fod camgymeriad wedi bod, DR yn adrodd fod maintenance wedi cael ei dalu ond ddim am y dŵr ac wedi cael addawiad o alwad yn ôl yfory i drafod ymhellach.

Cododd EW y mater o dorri glaswellt a nad oes ymateb i'r tender, wedi cael hysbys gan gwmni o Ysbyty Ifan. CR hefyd wedi cael gwybodaeth gan AR am gwmni hefyd.

Gofynnodd AV os oedd CR wedi siarad efo Rhys Jones o'r Cyngor Sir ynglyn â thorri'r goeden yn y fynwent, CR am adrodd yn ôl am hyn yn y cyfarfod nesaf.

Kevin Roberts heb gysylltu efo REW eto i drefnu cyfarfod yng Ngwytherin i edrych ar y gwaith. Kevin wedi bod yn y fynwent yn Llangernyw ac wedi sylwi fod polion wedi pydru, trafodaeth pwy oedd berchen y clawdd. REW & CR bron yn sicr taw'r Cyngor Cymuned sydd yn berchen ar y clawdd. Pawb yn gytun i ofyn wrth Kevin Roberts ymgymryd â'r gwaith oherwydd fod perygl i'r gwartheg fynd i'r fynwent.

DR wedi bod yn siarad efo Ruth Davies sydd wedi cael cais i osod y fainc mewn lleoliad yn agos i'r tap dŵr. CR am siarad efo Ruth Davies i drefnu cyfarfod yn y fynwent.

AV wedi cael gwybod fod mainc Mr Owen wedi ei chymeryd oddi yno a bydd mainc newydd yn dod yn ôl yn ei lle.

MD wedi cael y paent i baentio'r canllaw ond heb gael amser i'w baentio eto.

CR wedi cael galwad ffôn gan Gwyn Williams yn ddiweddar yn dymuno pob llwyddiant i'r Cyngor Cymuned. Gwyn Williams wedi codi mater gohebiaeth ynglyn â pholion 4G wedi deall fod y cais wedi ei wrthod gan y Cyngor Cymuned, CR wedi adrodd y drafodaeth a gafwyd wrth GW.

**5 CAIS CYNLLUNIO**

**5.1 0/49795** – trafododd CR y cais er gwybodaeth. DR ddim yn meddwl fod yn iawn fod y cais yn cael ei newid yn dilyn ei gymeradwyo. CR am ymateb yn nodi hyn. MD yn gofyn os oedd y maint yn newid, neb yn ymwybodol o hyn.

## **6 MATERION CYNGOR**

**6.1** Adroddodd DR ei bod wedi mynychu cwrs côd ymddygiad ac yn cwyno fod y sesiwn wedi ei gynnal ar gyfrwng Stalif. Gofynnol fod cynllun adroddiad hyfforddiant ar y wefan erbyn mis Tachwedd. Os oes mater ar y gweill sydd yn debygol o newid ardal mae'n ddyletswydd ar gynghorwyr i hysbysu'r cyngor cymuned a'i fod yn drosedd peidio a gwneud hynny. Cwrs arall buasai DR yn hoffi ei fynychu ym mis Awst i drafod sut i'r cyngor glosio at y gymuned maent yn ei wasanaethu.

Nododd DR er fod y cynghorwyr yn gwneud y swydd yn wirfoddol, mae dal angen dilyn y canllawiau.

AV wedi mynychu sesiwn arall ohono, wedi cael esiampau o wefannau cymdeithasol yn cael eu camdefnyddio. Trafododd bwyntiau eraill gafodd ei drafod yn ystod y cwrs. Nododd AV fod posibl cynnal y sesiwn ar gyfer y Cyngor Cymuned eto, pawb yn gytun fod hyn yn syniad da. CR yn cytuno fod hyn yn syniad da ar gyfer tymor yr hydref.

**6.2** CR & DR wedi cyfarfod yn Llangernyw i edrych ar safleoedd ar gyfer yr arwyddion fflachio gyferbyn â Bron Digain ac wrth mynedfa Parc Aelas. DR yn teimlo y buasai'n syniad gofyn wrth berchennog Bron Digain cyn mynd ymlaen ymhellach. CR am siarad efo'r perchennog cyn cyfarfod safle efo AR.

CR yn gofyn os oes hyfforddiant i gael i blant ar gyfer beics oherwydd fod adroddiad fod plant yn reidio beics o Parc Aelas ar draws y ffordd heb edrych. REW yn adrodd fod yr heddlu wedi bod yn yr ysgol yn ddiweddar i roi hyfforddiant beics.

Aelod o'r cyhoedd wedi gweld lori Huws Gray yn pasio tractor yn nghanol y pentref yn ddiweddar. DR hefyd wedi ebostio cwmni Blas ar Fwyd yn cwyno fod fan wedi bod yn gyrru drwy'r pentref.

**6.3** DR wedi mynychu cyfarfod Un Llais ar 6<sup>ed</sup> Gorffennaf pan benderfynwyd ar y swyddogion newydd. Cafwyd sgwrs gan Comisiynydd Heddlu a Thosedd newydd a'i fwriad yw cael y gwasanaeth gorau posibl. Pwyslais ar gymunedau yn gwarchod eu gilydd. Adroddodd fod sawl un wedi cwyno am or-yrru. Gofynnodd DR yn ystod y cyfarfod os fuasai modd cael heddweision yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor. Gobeithio y bydd heddweision yn dod i'r pentrefi ac yn cerdded o amgylch i fod yn fwy gweladwy.

57% o droseddau bellach ar-lein, wedi cael nifer uchel iawn o ymwelwyr yn stondin yr heddlu yn Eisteddfod yr Urdd.

## **7 MATERION ARIANNOL**

**7.1** DR wedi paratoi dogfen wariant ac yn rhoi copi i'r Cynghorwyr i gysidro cyn y cyfarfod nesaf. Trafododd DR y ffigyrau fel y paratowyd. Diolchwyd i DR am baratoi'r ddogfen.

**7.2** Cododd EW fod y cyfrifydd wedi gofyn os oes modd cael oriau i law erbyn y 5<sup>ed</sup> o bob mis ar gyfer HMRC, pawb yn gytun i newid y system i *month in hand*. EW i ofalu gadael i'r cyfrifydd wybod.

## **8 GOHEBIAETH**

**8.1** Wedi cael amcan bris gan Kevin Roberts ynglyn â safle bws Pentre, Llangernyw £1,704.00. pawb yn gytun i ofyn wrth Kevin Roberts ymgymryd â'r gwaith. Trafodaeth nad oes unrhyw ddiddordeb arall i ymgymryd â gwaith yn dod i mewn.

**8.2** EW yn adrodd fod sawl ebost yn dod i mewn i ebost y cyngor ynglyn â mater Bute i gyd yn gofyn yr un peth. EW wedi holi cyngor arall sut maent yn delio efo ebyst. Mater wedi ei ddelio ac o yn rheolau sefydlog fod yr ebyst yn cael eu trafod yn y cyfarfod a wedyn yn ymateb yn y cofnodion. EW yn gofyn os oes modd i'r mater yma gael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

Wedi cael negeseuon fod aelodau o'r cyhoedd yn anhapus nad oedd y cofnodion wedi cynnwys beth oedd aelodau'r cyhoedd wedi ei ddatgan yn ystod cyfarfod 25<sup>ain</sup> Mai. EW wedi gofyn wrth y 6 aelod o'r cyhoedd oedd wedi siarad yrru copi o beth oeddynt wedi ddweud yn ystod y cyfarfod. Cynnigiodd DR ofyn wrth Un Llais am gymorth ynglyn â'r ffordd gywir o gofnodi'r datganiadau.

**8.3** CR wedi gofyn wrth AR os fuasai gan glerc Eglwysbach ddiddordeb o gymeryd y swydd clerics Bro Cernyw. Aros am ymateb.

## **9 ADRODDIAD CYNGHORYDD SIR**

Wedi ei dderbyn ar ebost o flaen y cyfarfod yn ei absenoldeb:

"Annwyl gyfeillion,

Mi fues yn ymweld â Tŷ Nant Isaf ac maent am rhoi cais llawn i fewn, dwi wedi cael gair hefo'r swyddog cynllunio ac eglurodd bod y cais yn agos o fewn 400m i adeilad rhestredig (yr ysgol). Dyna pam mae rhaid rhoi cais llawn i fewn.

Wedi derbyn cwyn ynglyn â diffyg biniau baw ci yn yr ardal. Mi es a'r gwyn ymlaen i'r cyngor a'u hateb oedd nad ydynt bellach yn cyflenwi rhagor o finiau baw cŵn oherwydd y gost. Felly fydd rhaid i berchnogion cŵn ddefnyddio eu *wheelie bin* neu biniau sbwriel y pentre!

Wedi cael cwyn hefyd fod y cyngor cymuned wedi rhoi arwyddion 'dim cŵn' yn y fynwent a'r cae bach ger yr offer chwarae (yr un hefo postyn gôl.). Mae'n gofyn oes modd i chi newid yr arwyddion i rhai dim baw ci fel y rhai cyngor sir sydd yn y pentre.

Tra yn Gwytherin fe sylwais bod yr arwyddbost i Pandy wedi malu, felly dwi wedi hysbysy'r cyngor o hyn.

Mi fedrai hefyd gadarnhau y bydd y cyngor yn ail wynebu y ffordd o Pandy at y fynwent.

Maen't hefyd yn mynd i ymrafael a'r problem dŵr yn Dol bach. Mi fydd y gwethiau hyn yn digwydd o gwmpas Mis Medi.

Cofion Austin."

Diolchwyd i AR yn ei absenoldeb am ei waith.

EW yn codi'r mater o ddiffyg biniau baw cŵn yn Gwytherin. EW yn cynnig fod y Cyngor Cymuned yn talu am finiau cŵn ond fod y Cyngor Sir yn eu gwagio. Gofynnodd MGD os oes bin cyffredinol yn y parc yn Gwytherin. I'w drafod yn ystod y cyfarfod nesaf.

## **10 BILIAU**

**10.1** Enlli – £174.86, cytunwyd i dalu.

**10.2** Kevin Roberts – gwaith ar safleoedd bws a thrwsio mainc £549.60, cytunwyd i dalu.

**10.3** Dei Evans am dorri glaswellt £450, cytunwyd i dalu.

**10.4** Paent - £57.98.

**10.5** Cradur (safle wê) £160, cytunwyd i dalu.

## **11 MATERION LLEOL**

**DR** yn nodi fod pridd o'r clawdd yn disgyn i'r ffordd ar allt Tyn Pistyll. Wedi sôn wrth AR a wedi defnyddio Report It i hysbysu'r Cyngor Sir. Adroddodd CR taw mater i berchennog y tir yw'r clawdd.

**AV** wedi ysgrifennu at Darren Millar yn cwyno am yr awyrenau sydd yn hedfan yn aml, wedi cael ateb fod angen manylder lleoliad ac amseroedd i ymchwilio. AR yn ymwybodol.

Gofyn am y tybiau blodau ar gyfer yr hydref, pawb yn gytun i AV ofalu. DR yn gofyn os caiff yr ysgol helpu i blannu.

Angen tacluso'r Ardd Gerrig. CR am wneud ymholiadau efo garddwr sydd yn mynd i erddi yn Fedwen Arian i dorri'r glaswellt ochr i mewn i'r ffens. Pawb yn gytun i CR fynd ymlaen efo pris rhesymol.

Angen paentio polion arwyddo yng nghanol y pentref, wedi cael gwybod fuasai'r Cyngor Sir yn rhoi paent a chyfarpar ond i'r Cyngor Cymuned ymgymryd â'r gwaith. MD am baentio os bydd digon ar ôl gwneud y canllaw.

Trefnu llun o'r Cyngorwyr Cymuned. DR yn cynnig aros tan i'r sedd wag ei lenwi a threfnu yn dilyn hynny.

**JR** wedi cael cwyn am yr hysbysfwrdd fod hen hysbysebion yno ac angen ei lanhau. JR yn cynnig gwneud hyn.

Cwynion am goed ar lawr y Llwybr Troed, wedi siarad efo AR i hysbysu'r Cyngor Sir fod angen clirio coed sydd bob ochr i'r llwybr.

**CR** adrodd fod Gwyn Williams wedi cynnig Sara Thomas, Cefn Ffynnon ar gyfer y swydd sydd wedi ei derbyn.

Cododd CR yr angen i drefnu cynyrchiolwyr i wahanol fudiadau. MGD ar lywodraethwyr yr ysgol ac yn hapus i gynyrchioli'r Cyngor Cymuned. Nododd CR ei fod ar bwyllgor y ganolfan. REW yn adrodd fod cynyrchiolwyr o'r Cyngor Cymuned yn mynychu cyfarfodydd os oes gwahoddiad gan y mudiadau iddynt wneud hynny.

Diolchodd Non Davies am gydweithrediad y cyngor i sicrhau fod cofnodion cyfarfod Bute yn gytbwys.

## **12 CYFARFOD NESAF**

28<sup>ain</sup> Medi 2022 yn Llangernyw

Cyfarfod yn dod i ben 9:05pm

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan